

2017

Y BLAID WERDD ER MWYN

**PRYDAIN  
HYDERUS  
A  
GOFALGAR**

# ein gwarant i chi

---

Mae gan y Blaid Werdd syniadau mawr, beiddgar i greu Prydain hyderus a gofalgar y gallwn ni i gyd fod yn falch ohoni. Nid ydym yn ofni gobeithio am well dyfodol na bod yn onest am sut i'w gyrraedd. Rydym yn credu mewn bod yn ddewr, mewn mynegi'n barn, a mewn sefyll dros yr hyn sydd o bwys. Rydym yn falch o wneud gwleidyddiaeth mewn ffordd wahanol.

Dychmygwch lywodraeth sy'n ymddiried yn ein dynoliaeth gyffredin a'n gallu i'n llywodraethu'n hunain. Dychmygwch lywodraeth sy'n credu mai'r ffordd orau ymlaen yw gweithio gyda'n gilydd, yn hytrach nag yn erbyn ein gilydd. Dychmygwch lywodraeth sy'n blaenoriaethu hawliau dinasyddion a'r amgylchedd dros hawliau corfforaethau. Dychmygwch lywodraeth sy'n rhoi cyfle i bawb heb adael neb ar ôl mewn Prydain hyderus a gofalgar. Dyna'r math o lywodraeth y byddem ni'n gweithio drosto.

Dyma mae ASau Gwyrdd yn addo ei wneud drosoch chi a'r bobl a'r lleoedd rydych yn eu caru.

- Fe ymgyrchwn ni dros eich hawl i bleidleisio ar delerau terfynol cytundeb Brexit, gan gynnwys y dewis i aros yn yr UE.
- Fe bwyswn ni am gartrefi cynnes, gwirioneddol fforddiadwy i bawb a system iechyd gyhoeddus sy'n ddi-dâl i bawb.
- Fe frwydrwn ni dros gydraddoldeb, a thros gymdeithas lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.
- Fe weithredwn ni'n gryf bob amser ar newid yn yr hinsawdd ac i amddiffyn y byd naturiol yr ydym yn ei garu.

Fe safwn dros yr hyn sydd o bwys. Dyma'n Gwarant Werdd ni i chi.

ECONOMI I BAWB	3
AMDDIFFYN EIN HAMGYLCHEDD	5
AELODAETH O'R UE	7
EIN GIG A GWASANAETHAU CYHOEDDUS	9
ADDYSG I BAWB	11
EIN DADDEWID I BOBL IFAINC	13
CARTREFI SAFF, DIOGEL A FFORDDIADWY	15
BYD SAFFACH	17
DEMOCRATIAETH I'R DINASYDDION	19
SYSTEM DRAFNIDIAETH I'R BOBL	21

# **ECONOMI I BAWB**

Ni ein hunain yw'r economi – ein gwaith, ein creadigrwydd, yr hyn a brynwn, lle rydym yn gweithio. Dylai ganiatáu inni fyw bywyd hapus, boddhaus. Byddai economi Werdd yn rhoi gwaith teilwng, ystyrllon yn lle camfanteisio ar bobl ac adnoddau. Byddai'n creu dros filiwn o swyddi drwy'n rhaglen o fuddsoddiad gwyrdd ac adfer y sector gyhoeddus.

Bydd ein heconomi Werdd newydd wedi'i gwreiddio mewn dyfeisgarwch, cyfranogiad a chydweithrediad i greu economi flaengar sydd o fudd i bob cymuned ac sy'n amddiffyn yr amgylchedd. Economi i bawb.

## Ein polisiau:

- Cymryd camau tuag at incwm sylfaenol i bawb, gan gynnwys cynllun peilot a noddir gan y Llywodraeth, fel modd i gynyddu sicrwydd ac osgoi'r trap tlodi.
- Cyflwyno wythnos waith 4 diwrnod fesul cam, diddymu contractau dim oriau sy'n cymryd mantais ar bobl, a chynnal hawliau undebau llafur.
- Lleihau'r bwlch rhwng y rhai sy'n cael y cyflogau uchaf a'r rhai isaf, a chynyddu'r lleiafswm cyflog i gyrraedd cyflog byw o £10 yr awr erbyn 2020.
- Diddymu'r bwlch cyflog rhwng y ddau ryw, a mynnu bod o leiaf 40% o holl fyrddau cwmnïau cyhoeddus a'r sector gyhoeddus yn fenywod.
- Defnyddio Banc Brenhinol yr Alban, sy'n eiddo i'r Llywodraeth, i greu rhwydwaith o fanciau lleol i'r bobl ar gyfer pob dinas a rhanbarth, a dyletswydd arnynt i fenthyg yn lleol a darparu gwasanaethau bancio sylfaenol rhad.
- System dreth deg – pawb yn talu cyfran deg a dod i lawr yn drwm ar osgoi trethi.
- Diwygio trethiant i gynnwys mesurau megis treth gyfoeth ar yr 1% uchaf eu henillion; dod i lawr yn drwm ar osgoi trethi a buddsoddi mewn mwy o staff yng Nghyllid a Thollau Ei Mawrhydi; ailgyflwyno'r lefel uwch o dreth gorfforaethol i fusnesau mawr.
- Treth Robin Hwd ar drafodiadau gwerth uchel yn y sector ariannol, ac etifeddiad yn cael ei drethu yn ôl cyfoeth y sawl sy'n ei dderbyn.
- Diddymu bob yn damaid y cap ar yswiriant gwladol gweithwyr cyflogedig fel bo'r rhai cyfoethocaf yn talu mwy.
- Cefnogi a hyrwyddo busnesau bach, mentrau cydweithredol a chwmnïau cydfuddiannol, ac ehangu band llydan cyflym.
- Rydym am ddarparu cyfleoedd i bobl ifainc fod yn greadigol ac yn ddyfeisgar, i wneud hyn fe gefnogwn ddechrau busnesau newydd a mentrau creadigol drwy gredyd cymunedol a buddsoddiad gwyrdd.

**AMDDIFFYN  
EIN  
HAMGYLCHEDD**

Gellwch ymddiried yn y Gwyrddion i roi Newid yn yr Hinsawdd wrth graidd popeth a wnawn.

Rydym yn cefnogi Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd er mwyn swyddi, buddsoddiad mewn technoleg newydd ac effeithlonrwydd ynni'n disodli dibyniaeth ar danwyddau ffosil ac ynni niwclear. Dim ond drwy gymryd y camau brys sy'n angenrheidiol i osgoi'r gwaethaf o newid yn yr hinsawdd y sicrhawn ddyfodol y byd yr ydym yn ei rannu. Byddem yn achub y cyfleoedd a gynigir gan ynni adnewyddol ac yn gwarchod ac yn adfer ein mannau glas. Mae amgylchedd saff yn golygu dyfodol i chi, i'ch plant ac i genedlaethau i ddod.

## Ein polisiau:

- Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd i ddiogelu ac adfer ein hamgylchedd, amddiffyn ac atgyfnerthu bioamrywiaeth, hyrwyddo bwyd ac amaeth cynaliadwy, a sicrhau amddiffyn anifeiliaid
- Rhaglen waith cyhoeddus o ynysiad i wneud pob cartref yn gynnes ac adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd i wneud pob cymuned yn saffach.
- Cydraddoldeb mynediad i natur a mannau glas, i hybu hamdden, iechyd a lles.
- Cydweithrediad parhaus gweithredol â busnesau a gwledydd eraill i gyfyngu ar godiadau tymheredd byd-eang fel y bônt ymhell o dan 2 radd a chan anelu at 1.5 gradd
- Gwneud i ffwrdd â ffracio, gorsafoedd pŵer glo, cymorthdaliadau i danwyddau ffosil a niwclear a rhoi yn eu lle ynni adnewyddol effeithlon gwyrdd glân y dyfodol a buddsoddi mewn ynni dan berchenogaeth gymunedol.
- Deddf Awyr Lân newydd, yn ehangu ac yn ariannu'r rhwydwaith o barthau awyr lân orfodol.
- Amddiffyniad cryf i'r Llain Las, Parciau Cenedlaethol, SoDdGAoedd ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.
- Rhwydwaith ehangach, mwy effeithlon o warchodfeydd morol a gweithredu'n gryf i leihau gwastraff plastig ac arall.

**AELODAETH  
O'R UE**



Cefnogodd y Gwyrddion yr ymgyrch i aros ac rydym yn dal i gredu bod aelodaeth o'r UE yn gwneud ein dyfodol yn fwy gobeithiol a diogel.

Fe fynwn fod y telerau terfynol yn cael eu harchwilio'n drylwyr. Nid ydym yn derbyn bod Brexit "caled" nac ymadael â'r UE heb daro bargaen yn rhywbeth sydd er budd pobl Prydain. Byddwn yn ymgyrchu'n weithredol i ddiogelu swyddi, cynnal hawliau sylfaenol a rhoi amddiffyn yr amgylchedd wrth graidd unrhyw gytundebau masnachu yn y dyfodol.

## Ein polisiau:

- Refferendwm ar fanylion pa gytundeb bynnag a wneir ar gyfer ymadawiad Prydain â'r UE, â'r dewis o ymwrthod â'r cytundeb ac aros yn yr UE.
- Amddiffyn rhyddid i symud, a diogelu hawliau hanfodol i bobl a'r amgylchedd
- Gwarantu ar unwaith hawliau dinasyddion yr UE i aros yn y DU a cheisio ar frys drefniadau cyfatebol i ddinasyddion y DU yn yr UE.

**EIN GIG  
A  
GWASANAETHAU  
CYHOEDDUS**

Rydym yn talu am wasanaethau cyhoeddus, rydym yn eu defnyddio, y maent yn eiddo i ni. Y mae'n bryd iddynt berthyn inni i gyd.

O'n hysbytai i'n rheilffyrdd a'n hysgolion, fe ymgyrchwn ni dros wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rhedeg gan y bobl er mwyn y bobl. Fe gaiff y gwasanaethau hyn adnoddau priodol a byddant â llygad ar y dyfodol er mwyn cwrdd â'ch anghenion chi nawr ac yn y dyfodol, yn hytrach na straffaglu i ateb y galw. Fe safwn ni dros y GIG – rydym am iddo gael ei warchod nid ei breifateiddio.

## Ein polisiau:

- Deddf Adfer y GIG i wrthdroi preifateiddio, fel y bo pob gwasanaeth iechyd a deintyddol bob amser yn cael ei ddarparu a'i ariannu'n gyhoeddus, ac yn ddi-dâl adeg ei ddefnyddio
- Gwneud i'r gwariant ar ofal iechyd meddwl fod yn unol â'r gwariant ar ofal iechyd corfforol a gweithio tuag at sefyllfa lle bo pobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl yn cael eu cefnogi'n agos at eu cartref a'u rhwydweithiau cefnogaeth
- Cau bwlch gwariant y GIG i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at Feddyg Cyffredinol, bod ysbytai'n gallu rhedeg yn iawn a bod staff yn cael eu talu'n deg
- Buddsoddiad sylweddol mewn gofal cymdeithasol i'r henoed a phawb sydd ei angen
- Dod ag ynni, dŵr, rheilffyrdd, bysiau, y Post Brenhinol a gwaith gofal yn ôl o dan berchenogaeth gyhoeddus i roi gwir reolaeth i gymunedau dros y gwasanaethau cyhoeddus, rheolaeth sydd wedi cael ei cholli yn ystod y 30 mlynedd diwethaf
- Cynyddu'r ariannu i awdurdodau lleol fel y gallant ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da a buddsoddi yn ein cymunedau. I wneud bywyd yn haws i bobl sydd angen defnyddio sawl math o wasanaeth, byddai'r Blaid Werdd yn gweithio tuag at gyllideb sengl i gwmpasu iechyd a gwasanaethau cyhoeddus.

# **ADDYSG I BAWB**

Bydd addysg yn trawsnewid bywydau, felly rydym yn sefyll yn gadarn ochr yn ochr ag athrawon, rhieni, a phobl ifainc wrth alw am ddiwedd i breifateiddio mewn addysg, ac am i ffocws athrawon droi yn ôl at ddarparu'r amgylchedd dysgu gorau i fyfyrwyr o bob oed.

## Ein polisiau:

- Ariannu'n hysgolion yn iawn fel y bo gwariant mewn termau real i bob disgybl yn cynyddu ac yn cael ei warchod.
- Dod ag Academiâu ac Ysgolion Rhydd i mewn i system yr awdurdodau lleol, diddymu TASau a lleihau maint dosbarthiadau
- Diddymu ffioedd dysgu prifysgol, ariannu grantiau llawn i fyfyrwyr, a mwy o fuddsoddiad cyhoeddus mewn addysg bellach ac uwch.
- Adfer y Lwfans Cynhaliath Addysg a gwarantu prentisiaethau i bob person ifanc cymwysedig rhwng 16 a 25 oed.
- Addysg gynnar a gofal plant di-dâl cyffredinol i bob plentyn, ac addysg ffurfiol yn dechrau'n 7 oed.
- Mynd i'r afael â'r argyfwng o ran llwyth gwaith athrawon, â mesurau megis diddymu Ofsted, a diwygio'r cwricwlwm fel y bo'r disgybl yn y canol, gan ryddhau athrawon i ddysgu.
- Sicrhau bod pob plentyn ag Anghenion Addysgol Arbennig neu Anabledd yn cael mynediad at addysg brif ffrwd, yn unol â Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar gyfer Pobl ag Anableddau.

**EIN  
HADDEWID  
I BOBL IFAINC**

Rydym am adeiladu dyfodol gwell, mwy positif i bawb ac yn enwedig i bobl ifainc. Rydym am i'r dyfodol hwnnw fod yn saffach, yn hapusach, yn fwy cyfartal ac yn ddiogelach.

Ein haddewid ni i bobl ifainc, a ysgrifennwyd gan bobl ifainc, yw y gwnawn ni fuddsoddi mewn addysg a chyfleoedd, ochr yn ochr â'n polisïau ar ddod â'r oedran pleidleisio i lawr, amddiffyn yr amgylchedd, mynd i'r afael â'r argyfwng tai ac adeiladu economi gref.

## Ein polisïau:

- Amddiffyn anghenion tai pobl ifainc drwy adfer budd-dal tai i'r rhai dan 21 oed, rhwystro Awdurdodau Lleol rhag datgan bob pobl ifainc yn "fwriadol ddiartref", a buddsoddi mewn prosiectau cymunedol i adeiladu tai i ddarparu opsiynau fforddiadwy, diogel i bobl ifainc o ran tai.
- Creu byd gwaith tecach i bobl ifainc drwy ddiddymu bandiau cyflog ar sail oedran a chodi'r isafswm cyflog cenedlaethol i lefelau cyflog byw i bawb.
- Ymgyrchu i fyfyrwyr gael eu rhyddhau o faich dyled, gan ddiddymu ffioedd dysgu ac adfer grantiau byw. Gwarantu hawliau pobl ifainc i astudio, gweithio, byw a theithio yn yr UE, gan gynnwys drwy gynlluniau fel Erasmws.
- Ymwrthod â strategaeth senoffobaidd Prevent a cheisio'n hytrach ffyrdd cydweithredol dan arweinyddiaeth gymunedol o fynd i'r afael â phob ffurf ar eithafiaeth.
- Gwella mynediad pobl ifainc at anghenion iechyd sylfaenol ond hanfodol, drwy ddarparu mwy o gyllid ar gyfer ymgyrchoedd ymwybyddiaeth iechyd rhywiol, darparu mwy o fynediad at gondomau am ddim a chlinigau iechyd rhywiol; diddymu TAW ar gynhyrchion mislifol a sicrhau eu bod yn cael eu darparu'n ddi-dâl i bobl mewn angen ariannol dybryd.
- Galluogi pob person ifanc i gymryd rhan weithredol mewn democratiaeth, gan gyflwyno addysg wleidyddol ddiduedd a hybu dinasyddiaeth weithredol, yn ogystal â dod â'r oedran pleidleisio i lawr i 16.

**CARTREFI  
SAFF, DIOGEL  
A FFORDDIADWY**



Dylai fod gan bawb ohonom le saff, fforddiadwy, diogel a chynnes i'w alw'n gartref. Fe awn i'r afael ag achosion yr argyfwng tai: gan roi amodau teg i rentwyr, darparu tai cymdeithasol yn eang a dod â'r farchnad dai o dan reolaeth.

## Ein polisiau:

- Rhent byw i bawb drwy reolaethau rhent a mwy o denantiaethau diogel i rentwyr preifat, diwedd ar ffioedd gosod a thrwyddedu gorfodol i bob landlord.
- Rhoi llais i denantiaid drwy gefnogi datblygiad undebau rhentwyr.
- Rhaglen fawr i godi cartrefi fforddiadwy, gan gynnwys ½ miliwn o gartrefi rhent cymdeithasol dros 5 mlynedd.
- Rhoi diwedd ar werthu tai cyngor yn dorfol a diddymu'r Hawl i Brynu am brisiau gostyngol.
- Diddymu'r dreth ystafell wely greulon ac annheg.
- Gweithrediad ar gartrefi gwag i ddod â nhw yn ôl i mewn i ddefnydd a threialu Treth ar Werth Tir i annog defnyddio tir gwag a lleihau hapfasnachu.
- Adfer budd-dal tai i bobl o dan 21 a gwrthdroi toriadau i fudd-dal tai.
- Stopio datgan bod pobl yn 'fwriadol ddigartref' a gosod yr un dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran pobl sengl a chyplau heb blant ag o ran teuluoedd.
- Helpu prynwyr tro cyntaf drwy anelu at sefydlogrwydd mewn prisiau tai – gan ddiddymu manteision treth mewn perthynas â phrynu i osod, a chefnogi ffyrdd o fynd ati dan arweinyddiaeth gymunedol i adeiladu cartrefi fforddiadwy.
- Gwella'n sylweddol y dewis o ran tai i bobl F/fyddar, anabl a hŷn drwy fynnu bod pob cyngor yn cynllunio'n briodol ar gyfer eu hanghenion tai a chynyddu'n sylweddol nifer y cartrefi a adeiledir i safonau cartrefi gydol oes a symudoledd yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

**BYD**  
**SAFFACH**

Fe wnawn ni weithio dros Brydain sy'n defnyddio'i dylanwad yn ddoeth, i adeiladu heddwch ac amddiffyn yr amgylchedd, ac sy'n barod i gynnig lloches i'r rhai sydd mewn perygl.

Byddem yn cydweithio â'n cymdogion ar yr heriadau cyffredin sy'n ein hwynebu i gyd – o fynd i'r afael â therfysgaeth ac atal newid pellach yn yr hinsawdd i leihau anghyfartaledd. Rydym am adeiladu Prydain well, fwy hyderus, lle rydym yn teimlo'n ddigon cartrefol i groesawu eraill.

## Ein polisïau:

- Dileu cynlluniau i roi rhywbeth yn lle Trident, a thrwy hynny arbed o leiaf £110 biliwn yn ystod y 30 mlynedd nesaf.
- System fewnfudo a lloches ddyngarol sy'n cydnabod ac yn cymryd cyfrifoldeb am y rhan barhaus y mae Prydain yn ei chwarae mewn achosi'r llif o ymfudwyr ledled y byd.
- Gweithredu strategaeth ar draws y DU i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, gan gynnwys trais domestig, trais a chamdriniaeth rywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod a masnachu pobl.
- Polisi tramor moesegol – dim rhagor o werthu arfau i lywodraethau gormesol, adeiladu'r gallu i ddatrys anghydfodau, a rhoi diwedd ar gefnogaeth i ryfeloedd ymyrrol ymosodol.
- Rheolau masnach sy'n cydymffurfio â hawliau dynol, safonau llafur, safonau amgylcheddol ac ymrwymadau hinsoddol – dim llysoedd corfforaethol sy'n rhoi hawliau cyfreithiol arbennig i gwmnïoedd estron y tu allan i'r drefn gyfreithiol wladol a mecanweithiau yn hytrach i unigolion, grwpiau a chymunedau ddod ag achwyniadau.
- Cryfhau'r cytundeb byd-eang ar newid yn yr hinsawdd – gan gynnwys drwy gyflawni cyfiawnder hinsoddol fel y gall gwledydd tlotach ymdopi ag effaith newid yn yr hinsawdd a hybu datblygiad sy'n ecolegol gynaliadwy mewn rhannau tlotach o'r byd.
- Cynyddu'r gyllideb ar gyfer cymorth tramor o 0.7% o'r cynnyrch domestig cryswth i 1.0% o'r cynnyrch domestig cryswth.

# **DEMOCRATIAETH I'R DINASYDDION**

Rydym am newid gwleidyddiaeth yn rhywbeth a wneir gan y bobl a thros y bobl – nid rhywbeth a wneir iddynt.

Rydym am i bawb fod â llais ac i'r llais hwnnw gael ei glywed – nid yn unig y rhai â'r lleisiau mwyaf croch, y pocedi dyfnaf neu'r ffrindiau mwyaf grymus. Fe wnawn ni weithio dros system bleidleisio deg lle mae pob pleidlais yn cyfrif ac i sicrhau bod penderfyniadau a wneir ar lefel genedlaethol a lleol wedi'u seilio ar ymgynghoriad, cyd-drafod ac atebolrwydd gwirioneddol. Credwn ni fod tegwch yn bwysig ar lein ac yn y cyfryngau hefyd. Rydym o'r farn y dylai'r rhyngwyd fod yn rhydd o wyladwraeth wladwriaethol a chorfforaethol, a'n hawliau a'n rhyddidau'n cael eu gwarchod.

## Ein polisiau:

- Cyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau seneddol a lleol, a phleidleisiau'n 16 oed.
- Cynyddu amrywiaeth mewn gwleidyddiaeth gynrychioladol, gyda rhannu swyddi, Senedd 50/50, a disodli Tŷ'r Arglwyddi ag ail siambr etholedig.
- Amddiffyn y Ddeddf Hawliau Dynol ac aelodaeth y DU o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac adfer cyllido i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Gweithredu i fynd i'r afael â hiliaeth a chamwahaniaethu ar sail ffydd, cydraddoldeb gwirioneddol i bobl LGBTIQ+, hawliau cyfartal i gyplau cymysgryw gael Partneriaeth Sifil.
- Rhoi pŵer i gymunedau lleol drwy ganiatáu i 20% o'r etholwyr lleol sicrhau refferendwm ar benderfyniadau llywodraeth leol neu alw eu Haelod Seneddol yn ôl.
- Rhoi stop ar werthu data personol, megis cofnodion iechyd neu dreth, at ddibenion masnachol neu eraill.
- Cyflwyno cyfraith fwy effeithiol yn erbyn yr hyn sy'n cael ei alw'n sylwadau maleisus a wneir ar gyfryngau cymdeithasol.
- Amddiffyn y BBC a thynhau'r rheolau ynghylch perchenogaeth o'r cyfryngau fal na bo'r un unigolyn na chwmi'n berchen ar fwy nag 20% o farchnad gyfryngau, peth a fydd yn gochel bod unrhyw un yn meddu ar ormod o ddylanwad neu'n tanseilio democratiaeth.
- Rhoi pleidlais i'r Senedd ar unrhyw gytundebau masnach newydd.
- Adfywio swyddogaeth undebau llafur democrataidd.
- Galluogi pob person ifanc i gymryd rhan weithredol mewn democratiaeth, gan gyflwyno addysg wleidyddol ddiduedd a hybu dinasyddiaeth weithredol.

**SYSTEM  
DRAFNI DIAETH  
I'R BOBL**

Gallai trafndiaeth gyhoeddus lân, saff, hygyrch a mwy o gerdded a beicio ein gwneud ni i gyd yn iachach ac yn hapusach. Mae arnom angen system drafnidiaeth gyhoeddus sy'n mynd â ni lle mae eisiau inni fynd, yn fforddiadwy ac yn ddibynadwy. Dylai fod yn hawdd dewis gadael y car gartref – neu fod heb un o gwbl. Felly fe weithiwn ni i gynyddu buddsoddiad yn yn rheilffyrdd a bysiau, a hefyd i wneud ein strydoedd a'n ffyrdd yn saffach i bawb.

## Ein polisiau:

- Dod â'r rheilffyrdd yn ôl i berchenogaeth gyhoeddus ac ailreoleiddio bysiau, gan fuddsoddi mewn mwy o wasanaethau bws yn enwedig yng nghefn gwlad ac ardaloedd eraill lle mae'r gwasanaeth yn wael.
- Dylai pob trafndiaeth gyhoeddus fod yn gwbl hygyrch a heb risiau, a dylid cyflwyno bob yn ddaid drafnidiaeth gyhoeddus leol ddi-dâl i bobl ifainc, myfyrwyr, pobl ag anableddau, a phobl hŷn.
- Buddsoddi mewn cysylltiadau rheilffordd rhanbarthol a thrydanu'r rheilffyrdd presennol yn enwedig yng ngogledd Lloegr, yn hytrach na gwastraffu arian ar HS2 a'r rhaglen briffyrdd genedlaethol.
- Diddymu pob cynllun i ehangu meysydd awyr a dileu cymorthdaliadau tanwydd i gwmnïoedd awyr.
- Buddsoddi mewn cymdogaethau traffig isel a rhwydweithiau saff, cyfleus o lwybrau ar gyfer cerdded a beicio, gan gynnwys manau saff i ddysgu beicio, fel y gall pobl o bob oed a'r rhai ag anableddau ddewis wneud tripiâu drwy gerdded, mynd ar feic neu fynd ar sgwter symudoledd.
- Helpu i roi diwedd ar yr argyfwng iechyd cyhoeddus sy'n cael ei achosi gan lygredd yn yr aer drwy gynyddu'r cymhellion i fynd â cherbydau diesel oddi ar y ffyrdd.

Final note: A number of policy areas discussed in this document are devolved to the Welsh Assembly. Where this applies, the policy set out here will only apply to England.

# THE GREEN PARTY

Facebook: [facebook.com/TheGreenParty](https://facebook.com/TheGreenParty)

Twitter: [@TheGreenParty](https://twitter.com/TheGreenParty)

Website: [www.GreenParty.org.uk](http://www.GreenParty.org.uk)

Published by Judy Maciejowska on behalf of the Green Party of England and Wales,  
both at The Biscuit Factory, Unit 201 A Block, 100 Clements Road  
London SE16 4DG